**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Siopau Bach: Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

**Dydd Mawrth 8 Rhagfyr 2020, 09:30 - 10:00: Zoom (ar-lein)**

**COFNODION**

**YN BRESENNOL:**

| Enw cyntaf | Cyfenw | Sefydliad | Cofnodion |
|---|---|---|---|
| Steve | Dowling | Cymdeithas Siopau Cyfleustra | SD |
| Edward | Woodall | Cymdeithas Siopau Cyfleustra | EW |
| Janet | Finch-Saunders | AS Aberconwy | JFS |
| Vikki | Howells | AS Cwm Cynon | VH |
| Helen | Parfitt | Staff cymorth Helen Mary Jones AS | HP |

1. **Enwebu ac ethol swyddogion**

Croesawodd JFS y rhai a oedd yn bresennol a rheolodd y broses o enwebu ac ethol swyddogion ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Cafodd JFS ei hail-ethol yn Gadeirydd, etholwyd VH yn aelod ac yn Is-gadeirydd, ac etholwyd Helen Mary Jones AS yn aelod newydd. Etholwyd Neil McEvoy AS hefyd ar ôl nodi parodrwydd cyn y cyfarfod ond nid oedd yn gallu bod yn bresennol ar y diwrnod.

Cafodd y Gymdeithas Siopau Cyfleustra ei hail-ethol yn ysgrifennydd i'r grŵp.

2. **Rhaglen o Weithgareddau 2021**

Gwahoddodd JFS EW i gyflwyno rhaglen arfaethedig o weithgareddau ar gyfer 2021. Roedd y cynigion ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol yn cynnwys; maniffesto ar gyfer siopau bach cyn etholiadau’r Senedd, mynd i’r afael â thrais yn erbyn gweithwyr siopau ar ôl etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, a lansio Adroddiad Siopau Lleol Cymru ar gyfer 2022. Gellir trefnu cyfarfodydd ychwanegol i adlewyrchu datblygiadau polisi.

**CYTUNWYD** ar y rhaglen o weithgareddau.

3. **Cloi**

Anogodd JFS y rhai a oedd yn bresennol i lofnodi Datganiad Barn 187 ar Adroddiad Siopau Lleol Cymru ar gyfer 2021.

Yna gwahoddodd JFS y rhai a oedd yn bresennol i gofrestru ar gyfer y digwyddiad lansio Adroddiad Siopau Lleol Cymru ar gyfer 2021 y Gymdeithas Siopau Cyfleustra o 10:00 ymlaen a daeth â’r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol i ben.